Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru

Cymru a Lloegr

Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

# Cais am Gymeradwyaeth i gynnal Marchnad Eithriedig ar gyfer Gwartheg sy'n gymwys i gael eu profi cyn eu symud ond nad yw hynny wedi digwydd* ☐

(Ticiwch y blwch priodol)

***ac y gellir ond eu hanfon i ladd-dy, i'w safle gwreiddiol, i Uned Besgi TB Eithriedig neu i Uned Besgi TB Gymeradwy.**

# Crynhoad Lladd TB ar gyfer Gwartheg dan Gyfyngiadau TB ☐

# Arwerthiant Arbennig TB ar gyfer Gwartheg dan Gyfyngiadau TB i Safleoedd Pen y Daith Gymeradwy ** neu Arwerthiant Gwasgaru Buches (Lloegr yn unig) ☐

****ac y gellir ond eu hanfon i ladd-dy neu i Uned Besgi TB Gymeradwy**

**Stamp swyddfa APHA**

## Nodiadau Pwysig

- Dylid cyflwyno ceisiadau i APHA.CymruWales@apha.gov.uk yng Nghymru ac i flwch post y ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid TB (CSC.TBmarketreturns@apha.gov.uk) yn Lloegr.
- Mae'r amodau ar gyfer cymeradwyo'r digwyddiadau hyn yn ychwanegol i'r amodau presennol ar gyfer trwyddedu crynoadau anifeiliaid yn y DU. Rhaid i'r safle gael trwydded Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (AGO02) ar waith cyn y gellir ei gymeradwyo
- Dim ond yn yr Ardal Risg Uchel a'r Ardal Ymylol yn Lloegr ac yn yr Ardal TB Uchel yng Nghymru y gellir cymeradwyo arwerthiannau arbennig TB
- Ni ellir cynnal arwerthiannau arbennig TB ar gyfer gwartheg dan gyfyngiadau TB tra bo unrhyw anifeiliaid eraill ar y safle ac ni all fod yn rhan o unrhyw grynhoad arall. Yng Nghymru, ni all gwartheg nad ydynt dan gyfyngiadau fynd i mewn i'r safle yn dilyn arwerthiant arbennig TB tan y diwrnod ar ôl yr arwerthiant
- Ni chaniateir Crynoadau Lladd TB (Marchnadoedd Lladd a Chanolfannau Casglu TB) ar gyfer gwartheg dan gyfyngiadau o fuchesi wedi'u heintio â TB nac o Unedau Pesgi Cymeradwy (AFUs) yn yr Ardal Risg Isel yn Lloegr. Mae gwartheg dan gyfyngiadau TB o Unedau Pesgi Trwyddedig (LFUs) yn gymwys i symud i Grynhoad Lladd TB Cymeradwy yn yr Ardal Risg Isel yn Lloegr
- Cwblhewch Rannau A, B ac C ac atodwch y dogfennau ategol gofynnol a restrir yn Rhan CH. Ni dderbynnir ffurflenni anghyflawn
- **Defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU.**

## ■ Rhan A - Manylion yr ymgeisydd

1. Enw a chyfeiriad yr unigolyn sy'n gwneud cais am y gymeradwyaeth (sef y sawl sy'n gyfrifol am drefnu'r farchnad/arwerthiant h.y. y trwyddedai)

Cod post

2. Rhif Ffôn (gan gynnwys y cod deialu cenedlaethol)

3. Rhif Ffacs. (gan gynnwys y cod deialu cenedlaethol)

4. Rhif ffôn symudol (os oes un)

5. Cyfeiriad e-bost

6. Gwefan (os oes un)

■ **Rhan B - Manylion y safle sydd i'w gymeradwyo**

1. Enw'r safle

2. Rhif daliad yr uned

3. Perchennog (perchenogion) y safle
(os yw'n wahanol i Ran A)

4. Cyfeiriad post y safle
(os yw'n wahanol i Ran A)

Cod post

5. Math o grynhoad/marchnad/arwerthiant (ticiwch y blwch priodol)

- Marchnad Eithriedig ☐
- Crynhoad Lladd TB ☐
- Arwerthiant Arbennig TB ☐

6. Ydych chi'n bwriadu cynnal crynoadau/arwerthiannau eraill ar yr un diwrnod ag unrhyw farchnadoedd/arwerthiannau ar gyfer gwartheg dan gyfyngiadau TB?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os felly, rhestrwch y mathau o arwerthiannau ac atodwch gynllun gwahanu

7. Gweithgareddau eraill a gynhelir ar y safle:
(e.e. gwerthu peiriannau amaethyddol, neu fasnachwyr)

8. Rhif Ffôn: (os yw'n wahanol i Ran A)

9. Rhif Ffacs: (os yw'n wahanol i Ran A)

10. Cyfeiriad e-bost (os yw'n wahanol i Ran A)

11. **Ar gyfer marchnadoedd/arwerthiannau eithriedig/dan gyfyngiadau yn unig:**
Os ydych yn bwriadu cynnal marchnad eithriedig yn rheolaidd (e.e. bob dydd Mawrth), nodwch pryd.

12. Os ydych yn bwriadu cynnal digwyddiad unigol, nodwch pryd

13. Yr uchafswm arfaethedig o wartheg yn y farchnad/canolfan gasglu

## ■ Rhan C – Datganiad

**RHAID i'r datganiad gael ei lofnodi gan yr ymgeisydd (yr unigolyn cyfrifol) a enwir yng nghwestiwn 1 Rhan A.**

Datganaf drwy hyn:

- Fod y wybodaeth a ddarparwyd gyda'r ffurflen gais hon yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred
- Rwy'n ymrwymo i hysbysu APHA (APHA.CymruWales@apha.gov.uk yng Nghymru a CSC.TBmarketreturns@apha.gov.uk yn Lloegr) a'r Awdurdod Lleol ar unwaith os bydd newid sylweddol o ran rheolwyr neu staff neu os bydd y safle cymeradwy yn destun gwaith atgyweirio strwythurol, gwaith cynnal a chadw neu waith adnewyddu sylweddol
- Rwy'n ymrwymo i hysbysu APHA a'r Awdurdodau Lleol os rhoddir y gorau i gynnal crynoadau/arwerthiannau TB (APHA.CymruWales@apha.gov.uk yng Nghymru a CSC.TBmarketreturns@apha.gov.uk yn Lloegr)
- Rwyf wedi darllen a deall yr amodau ar gyfer cymeradwyaeth i gynnal:
    - Marchnad eithriedig ar gyfer gwartheg sy'n gymwys i gael profion cyn symud ond nad yw hynny wedi digwydd (ac y gellir ond eu hanfon i ladd-dy, i'w safle gwreiddiol, i uned besgi TB eithriedig (EFU) neu i uned besgi TB gymeradwy (AFU)
    - Crynhoad lladd ar gyfer gwartheg dan gyfyngiadau TB
    - Arwerthiant arbennig TB ar gyfer gwartheg dan gyfyngiadau TB
    - neu gyfuniad

  yn atodlen 1/atodlen 2/atodlen 3* ac ymrwymaf i gydymffurfio â nhw

**dilëwch fel y bo'n briodol*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gellir rhoi manylion cyswllt y farchnad hon a'r arwerthiannau dan gyfyngiadau TB a gynhelir mewn rhestr ar wefan gyhoeddus ar gyfer arwerthiannau o'r fath | Gellir | ☐ | Na ellir | ☐ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod | | | |
| Enw mewn PRIFLYTHRENNAU | | Dyddiad | |

**DIOGELU DATA**

I gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn trin data personol ewch i www.gov.uk a chwiliwch am Siarter Gwybodaeth Bersonol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

## ■ RHAN CH - Dogfennau sydd i'w cyflwyno gyda'r cais hwn

| | Cadarnhawyd eu bod wedi dod i law swyddfa APHA |
|---|---|
| Cynllun o'r safle gyda'r gofynion ychwanegol ar gyfer gwartheg dan gyfyngiadau TB (yr ardal anifeiliaid, pwyntiau bioddiogelwch a maint y safle i'w drwyddedu)* | ☐ |
| Cynllun wrth gefn ar gyfer unrhyw anifeiliaid a wrthodwyd neu heb eu gwerthu dan gyfyngiadau TB* | ☐ |

****ni ellir prosesu ceisiadau heb y dogfennau hyn***

# Atodlen 1

## Marchnad Eithriedig

**Rhestr o'r amodau ar gyfer gwerthu gwartheg nad ydynt dan gyfyngiadau i safleoedd dan gyfyngiadau heb fod angen cynnal profion cyn symud.**

1) Mae Marchnadoedd Eithriedig yn caniatáu gwerthu gwartheg nad ydynt dan gyfyngiadau o fuchesi â statws Heb TB Swyddogol (OTF) nad ydynt yn ddarostyngedig i ofynion gwahardd symud o dan y Gorchymyn Rheoli Clefydau, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael profion cyn symud, heb brofion o'r fath. Mae'r holl wartheg sy'n symud i mewn i'r Farchnad Eithriedig yn ddarostyngedig i'r cyfyngiad bod yn rhaid iddynt gael eu hanfon ymlaen:
   - yn uniongyrchol i ladd-dy
   - yn uniongyrchol i Uned Besgi Gymeradwy (AFU)
   - yn uniongyrchol i Uned Besgi Eithriedig (EFU)
   - yn ôl i'w safle gwreiddiol (heblaw pan fydd y rhain yn cael prawf gwyliadwriaeth TB bob pedair blynedd)
2) Mae'n drosedd i unrhyw berson symud anifail buchol o farchnad eithriedig i unrhyw le heblaw safle pen y daith a ganiateir.
3) Rhaid bod y safle trwyddedig yn gallu dal yr uchafswm o wartheg a ragwelir.
4) Ni all gwartheg o fuchesi dan gyfyngiadau TB fynd i mewn i Farchnad Eithriedig.
5) Ni all adweithyddion amhendant wedi'u datrys sydd dan gyfyngiadau am weddill eu hoes yn Lloegr fynd i mewn i Farchnad Eithriedig.
   Rhaid i unrhyw anifeiliaid sy'n dangos arwyddion clinigol o TB mewn marchnad gael eu cadw ar wahân ar unwaith a rhaid hysbysu APHA.
6) Gellir cynnal marchnadoedd 'gwyrdd' arferol eraill nad ydynt dan gyfyngiadau ar yr un safle â Marchnad Eithriedig ond dylid sicrhau bod anifeiliaid yn yr adran eithriedig yn cael eu gwahanu'n glir oddi wrth anifeiliaid eraill (naill ai'n ffisegol neu yn ôl amser).
7) **Rhaid i weithredwr y farchnad hysbysu APHA** (APHA.CymruWales@apha.gov.uk yng Nghymru a CSC.TBmarketreturns@apha.gov.uk yn Lloegr) **a'r Awdurdod Lleol o leiaf bum diwrnod gwaith cyn** i Farchnad Eithriedig TB gael ei chynnal.

# Atodlen 2

## Crynhoad Lladd TB ar gyfer gwerthu gwartheg dan gyfyngiadau TB

### Rhestr o'r amodau ar gyfer casglu neu werthu gwartheg o fuchesi dan gyfyngiadau symud TB i'w hanfon ymlaen i ladd-dy

1) Rhaid bod y crynoadau Lladd TB hyn wedi'u trwyddedu o dan Erthygl 11 o'r Gorchmynion Crynoadau Anifeiliaid (fel y'u diwygiwyd) fel crynoadau lladd ar gyfer anfon yr holl anifeiliaid ymlaen yn uniongyrchol i ladd-dy ym Mhrydain Fawr a gallant fod naill ai'n:

    a) grynoadau ar gyfer gwerthu gwartheg i'w hanfon ymlaen i ladd-dy sydd hefyd wedi'u cymeradwyo i gynnwys gwartheg na allant gael eu cynnwys mewn marchnad reolaidd oherwydd cyfyngiadau symud TB

    b) casgliadau a gymeradwywyd ar gyfer casglu anifeiliaid i'w lladd y mae lleoedd eisoes wedi'u trefnu ar eu cyfer mewn lladd-dy ym Mhrydain Fawr sydd hefyd wedi'u cymeradwyo i gynnwys gwartheg na allant gael eu cynnwys mewn marchnad reolaidd oherwydd cyfyngiadau symud TB

2) Gall gwartheg sy'n symud drwy'r crynoadau hyn fod yn:

    - wartheg nad ydynt dan gyfyngiadau
    - gwartheg o safleoedd dan gyfyngiadau TB. Rhaid bod pob un ohonynt wedi cael prawf twbercwlin negatif o fewn y 90 diwrnod blaenorol (ac eithrio lloi o dan 42 diwrnod oed) ac nad ydynt wedi'u dosbarthu'n adweithyddion, yn adweithyddion amhendant heb eu datrys nac yn gysylltiadau uniongyrchol. Mae hyn hefyd yn berthnasol i Adweithyddion Amhendant wedi'u datrys sydd dan gyfyngiadau am weddill eu hoes yn Lloegr o safleoedd dan gyfyngiadau TB
    - Mae Adweithyddion Amhendant wedi'u datrys sydd dan gyfyngiadau am weddill eu hoes yn Lloegr o fuchesi â statws Heb TB Swyddogol (OTF) yn gymwys i symud drwy grynhoad lladd TB. Nid yw'n ofynnol i'r anifeiliaid hyn fod wedi cael prawf twbercwlin yn ystod y 90 diwrnod blaenorol
    - gellir derbyn lloi heb eu profi o dan 42 diwrnod oed ar yr amod nad ydynt wedi'u dosbarthu'n gysylltiadau uniongyrchol. Ni ddylid crynhoi'r lloi hyn i'w gwerthu'n unigol.
    - **nid** yw gwartheg o fuchesi wedi'u heintio â TB ac Unedau Pesgi Cymeradwy (AFUs) yn gymwys i symud i Grynhoad Lladd TB yn yr Ardal Risg Isel yn Lloegr. Caniateir i wartheg o Unedau Pesgi Trwyddedig (LFUs) symud i Grynhoad Lladd TB cymeradwy yn yr Ardal Risg Isel

3) Gall crynoadau lladd TB cymeradwy gynnwys hyd at bum categori gwahanol o wartheg:

    - gwartheg sydd wedi cael profion clir o safleoedd dan gyfyngiadau TB, a all gynnwys Adweithyddion Amhendant wedi'u datrys o fuchesi dan gyfyngiadau TB
    - gwartheg heb eu profi o AFUs heb bori (dim ond i Grynoadau Lladd TB yn Lloegr y mae hyn yn berthnasol)
    - gwartheg sy'n gymwys i gael profion cyn symud ond sydd heb gael eu profi o fuchesi OTF
    - gwartheg sydd wedi cael profion cyn symud o fuchesi OTF
    - gwartheg heb eu profi o fuchesi OTF sydd wedi'u heithrio rhag y gofynion i gael profion cyn symud

4) Rhaid i weithredwyr y farchnad gydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ganlynol a diwygiadau neu newidiadau dilynol:

    - Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Lloegr) 2010
    - Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2010
    - Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Lloegr) 2007
    - Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007
    - Gorchymyn Rheoli Clefydau (Lloegr) 2003
    - Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003
    - Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Lloegr) (Rhif 3) 2003
    - Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) (Rhif 3) 2003
    - Gorchmynion Lles Anifeiliaid mewn Marchnadoedd 1990 fel y'u diwygiwyd gan Orchymyn Lles Anifeiliaid mewn Marchnadoedd (Diwygio) 1993
    - Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Lloegr) 2006
    - Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludiant) (Cymru) 2007
    - Unrhyw barthau rheoli clefydau perthnasol

5) Rhaid i'r safle trwyddedig allu dal yr uchafswm o wartheg a ragwelir.

6) Rhaid i weithredwr y farchnad sicrhau bod amodau ychwanegol ar gyfer crynoadau lladd TB cymeradwy (e.e. trwyddedau symud, defnyddio diheintyddion TB cymeradwy, ac ati) yn cael eu bodloni.

7) Rhaid i unrhyw anifeiliaid sy'n dangos arwyddion clinigol o TB mewn marchnad gael eu cadw ar wahân ar unwaith a rhaid hysbysu APHA.

8) **Rhaid i weithredwr y farchnad hysbysu APHA** (APHA.CymruWales@apha.gov.uk yng Nghymru a CSC.TBmarketreturns@apha.gov.uk yn Lloegr) o leiaf **bum diwrnod gwaith** cyn i bob crynhoad gael ei gynnal.

9) Gellir cymeradwyo crynoadau ar gyfer lloi o fewn crynhoad lladd TB **ond** mae'r gofynion ychwanegol fel a ganlyn:

- ni chaniateir anfon lloi i'r crynhoad os ydynt yn 42 diwrnod oed neu'n hŷn oni fyddant wedi adweithio'n negatif i brawf twbercwlin o fewn y 90 diwrnod blaenorol
- rhaid i staff y farchnad sicrhau bod pob pasbort yn cael ei wirio cyn dadlwytho unrhyw loi i mewn i'r crynhoad
- dylid ond crynhoi lloi o safleoedd dan gyfyngiadau i'w hanfon ymlaen i ladd-dy a drefnwyd ymlaen llaw a bydd y drwydded yn nodi'r lladd-dy yn Rhan 2
- rhaid i brosesau symud lloi gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth lles
- rhaid i weithredwyr y farchnad sicrhau bod digon o leoedd wedi'u trefnu ymlaen llaw yn y lladd-dy ar gyfer nifer y lloi sydd wedi'u cynnwys yn y crynhoad
- os nad oes digon o leoedd ar gael yn y lladd-dy, rhaid i weithredwr y farchnad hysbysu'r ffermwr/ffermwyr dan sylw a swyddog(ion) trwyddedu APHA ar unwaith cyn dyddiad y crynhoad a nodi pa loi na chânt eu hanfon i'r crynhoad hwnnw
- rhaid i bob llo gael ei lwytho i'w anfon ymlaen i'r lladd-dy pen y daith (gyda'r drwydded wedi'i diweddaru fel sy'n ofynnol) o fewn pedair awr i werthu'r llo olaf
- gan na chânt eu gwerthu'n unigol, yn ymarferol, dylent gael eu symud oddi ar y safle cyn gynted â phosibl a dylid ystyried gwneud hyn o fewn pedair awr i'r llo olaf gyrraedd

10) Rhaid hefyd ystyried yr amser a dreulir ar safle'r farchnad wrth sicrhau cydymffurfiaeth â Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Lloegr) 2006 a/neu Orchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007.

Rhaid i werthwyr, cludwyr a gweithredwyr marchnadoedd gydymffurfio â gofynion Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Lloegr) 2006 a/neu Orchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007 ac amodau'r Drwydded Gyffredinol ar gyfer Symud Gwartheg a gyhoeddwyd o dan Orchymyn Rheoli Clefydau (Lloegr) 2003/Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003 mewn perthynas â symud unrhyw wartheg dan gyfyngiadau TB gan gynnwys y gofyniad ar gyfer awdurdodi nifer o lwythi, os yw hynny'n berthnasol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn GOV.UK: https://www.gov.uk/farm-animal-welfare-during-transportation#eu-regulation-on-the-welfare-of-animals-in-transport.

11) Rhaid i'r arwerthwr lunio rhestr, fesul daliad gwreiddiol, o'r holl wartheg dan gyfyngiadau TB a werthir. Rhaid i'r rhestr gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Rhif Daliad (CPH) ac enw'r gwerthwr
- manylion adnabod swyddogol yr anifail
- enw a CPH y prynwr
- lladd-dy pen y daith
- Rhaid anfon y rhestr hon yn electronig i APHA (APHA.CymruWales@apha.gov.uk yng Nghymru a CSC.TBmarketreturns@apha.gov.uk yn Lloegr) **o fewn 24 awr i ddiwedd yr arwerthiant.**

# Atodlen 3

## Arwerthiant Arbennig ar gyfer Gwartheg dan Gyfyngiadau TB

### Rhestr o'r amodau ar gyfer gwerthu gwartheg sydd wedi cael profion clir o fuchesi dan gyfyngiadau symud TB i safleoedd pen y daith cymeradwy yn dilyn asesiad risg milfeddygol

1) Mae Arwerthiant Arbennig ar gyfer gwartheg dan gyfyngiadau TB (marchnad 'oren') yn caniatáu gwerthu gwartheg dan gyfyngiadau TB nad ydynt yn ddarostyngedig i ofynion gwahardd symud y Gorchymyn Rheoli Clefydau. **Rhaid** i'r ffermwr fod yn gyfrifol am sicrhau nad oes dim gwartheg wedi symud i mewn i'r safle o fewn y saith diwrnod blaenorol o dan amodau unrhyw drwydded gyffredinol nac unigol. Dim ond ar gyfer gwartheg dan gyfyngiadau TB y caiff arwerthiant arbennig TB ei gymeradwyo. Ni chaniateir anifeiliaid heblaw gwartheg yn yr arwerthiant.

2) Mae'r holl wartheg sy'n mynd i mewn i arwerthiant arbennig TB yn ddarostyngedig i'r cyfyngiad bod yn rhaid iddynt gael eu hanfon ymlaen:
   - yn uniongyrchol i ladd-dy
   - yn uniongyrchol i AFU (yng Nghymru neu Loegr)
   - yn uniongyrchol i AFUE yn Lloegr
   - ar gyfer arwerthiant gwasgaru buches (Lloegr yn unig) – yn uniongyrchol i'r safle gwreiddiol o dan amodau trwydded (TB16c) sy'n awdurdodi'r symud

3) Yn Lloegr, gall arwerthiannau gwasgaru buches, lle mae'r fuches dan gyfyngiadau TB, gael eu cynnal fel arwerthiant arbennig TB ar gyfer gwartheg dan gyfyngiadau TB drwy ddefnyddio'r drwydded i'w heithrio rhag y gwaharddiad symud am chwe diwrnod yn ogystal â'r amodau ar gyfer yr arwerthiant arbennig TB.

4) Mae'n drosedd i unrhyw berson symud anifail buchol o arwerthiant arbennig TB i unrhyw le heblaw safle pen y daith a ganiateir. **Nid** ydynt yn gymwys i fynd i uned besgi **eithriedig**.

5) Rhaid i unrhyw brynwr ddangos tystiolaeth i'r farchnad ei fod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer symud gwartheg o'r arwerthiant, naill ai drwy gyflwyno ei gymeradwyaeth fel AFU/AFUE neu drwy gadarnhau y bydd yn mynd â'r gwartheg **yn uniongyrchol** i gael eu lladd. Mae'r amodau ar gyfer cymeradwyo arwerthiant arbennig ar gyfer gwartheg dan gyfyngiadau TB yn ychwanegol at yr amodau ar gyfer y Drwydded Crynoadau Anifeiliaid ac nid ydynt yn eu disodli. **Dim ond yn yr Ardal Risg Uchel a'r Ardal Ymylol yn Lloegr ac yn yr Ardal TB Uchel yng Nghymru y gellir cymeradwyo arwerthiannau arbennig TB**.

6) Rhaid i weithredwyr y farchnad gydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ganlynol a diwygiadau neu newidiadau dilynol:
   - Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Lloegr) 2010
   - Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2010
   - Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Lloegr) 2006
   - Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludiant) (Cymru) 2007
   - Gorchymyn Rheoli Clefydau (Lloegr) 2003
   - Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003
   - Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Lloegr) (Rhif 3) 2003
   - Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) (Rhif 3) 2003
   - Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Lloegr) 2007
   - Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007
   - Gorchmynion Lles Anifeiliaid mewn Marchnadoedd 1990 fel y'u diwygiwyd gan Orchymyn Lles Anifeiliaid mewn Marchnadoedd (Diwygio) 1993
   - Unrhyw barthau rheoli clefydau perthnasol.

7) Rhaid bod y safle trwyddedig yn gallu dal yr uchafswm o wartheg a ragwelir

8) Mae arwerthiant arbennig TB ar gyfer:
   - anifeiliaid sydd wedi cael profion clir o fuchesi dan gyfyngiadau TB. Rhaid i'r holl wartheg heblaw lloi o dan 42 diwrnod oed fod wedi cael prawf croen TB â chanlyniadau negatif yn y 90 diwrnod blaenorol
   - adweithyddion amhendant wedi'u datrys sydd dan gyfyngiadau am weddill eu hoes yn Lloegr o fuchesi dan gyfyngiadau TB. Rhaid i'r holl wartheg heblaw lloi o dan 42 diwrnod oed fod wedi cael prawf croen TB â chanlyniadau negatif yn y 90 diwrnod blaenorol
   - adweithyddion amhendant wedi'u datrys sydd dan gyfyngiadau am weddill eu hoes yn Lloegr o fuchesi OTF. Nid yw'n ofynnol i'r anifeiliaid hyn fod wedi cael prawf twbercwlin yn ystod y 90 diwrnod blaenorol oni chânt eu hanfon i arwerthiant arbennig TB yng Nghymru

9) Gellir anfon gwartheg o AFUs yng Nghymru a Lloegr, ac o AFUEs yn Lloegr, i arwerthiant arbennig TB cymeradwy yng Nghymru a Lloegr. Gellir symud anifeiliaid sydd eisoes wedi symud i AFU yng Nghymru o AFU, neu AFUE, dan drwydded (TB16b/TB16e) i Arwerthiant Arbennig TB, ond, fel un o amodau'r drwydded, dim ond eu gwerthu yn yr Arwerthiant Arbennig TB i'w lladd, neu i AFU/AFUE yn Lloegr a ganiateir wedi hynny.

10) Ni chaniateir crynoadau eraill ar y safle ar yr un pryd ag arwerthiant arbennig TB, a rhaid i'r holl wartheg sy'n symud o dan y trwyddedau ar gyfer gwartheg dan gyfyngiadau TB fod wedi gadael y safle cyn i unrhyw grynhoad arall gael ei gynnal. Rhaid i safleoedd arbennig TB fod wedi cael eu glanhau a'u diheintio yn unol â'r Gorchymyn TB cyn cael eu defnyddio gan wartheg nad ydynt dan gyfyngiadau. Ni all gwartheg o fuchesi OTF fynd i mewn i'r safle ar ôl arwerthiant arbennig TB yng Nghymru tan y diwrnod canlynol.

11) Rhaid i unrhyw anifeiliaid sy'n dangos arwyddion clinigol o TB mewn marchnad gael eu cadw ar wahân ar unwaith a rhaid hysbysu APHA.

12) Rhaid i weithredwr y farchnad **hysbysu APHA o leiaf bum diwrnod gwaith cyn** i bob arwerthiant gael ei gynnal (APHA.CymruWales@apha.gov.uk yng Nghymru a CSC.TBmarketreturns@apha.gov.uk yn Lloegr).

13) Dim ond pan gyflwynir trwydded ddilys ar gyfer symud anifeiliaid i safle'r arwerthiant y dylid eu derbyn a'u symud, a bydd yr anifeiliaid yn ddarostyngedig i amodau'r drwydded honno. Dim ond pan gyflwynir yr hysbysiad cymeradwyo ar gyfer AFU/AFUE yng Nghymru neu Loegr, neu fanylion y lladd-dy y cânt eu symud iddo, y gellir eu symud o'r farchnad. Rhaid i unrhyw wartheg a gaiff eu symud allan o'r farchnad fynd yn uniongyrchol i safle pen y daith a byddant yn ddarostyngedig i amodau'r drwydded, a'r prynwr/ceidwad a fydd yn gyfrifol am gydymffurfio ag amodau'r drwydded.

14) Yn achos anifeiliaid a symudir i'r arwerthiant o dan drwydded TB16b neu TB208, rhaid i'r arwerthwr gwblhau Rhan 2 o'r drwydded gan roi manylion safle pen taith yr anifeiliaid ac enw a chyfeiriad y prynwr/ceidwad, gan gopïo'r drwydded fel y bo angen os bydd y gwartheg yn mynd i fwy nag un safle pen taith.

15) Rhaid i'r arwerthwr lunio rhestr, yn ôl daliad gwreiddiol, o'r holl wartheg dan gyfyngiadau TB a werthir. Rhaid i'r rhestr gynnwys:

- rhif daliad (CPH) ac enw'r gwerthwr
- manylion adnabod swyddogol yr anifail
- enw a CPH y prynwr
- AFU neu ladd-dy pen y daith

Rhaid anfon yr atodlen hon yn electronig i APHA (APHA.CymruWales@apha.gov.uk yng Nghymru a CSC.TBmarketreturns@apha.gov.uk yn Lloegr) o fewn 24 awr i ddiwedd yr arwerthiant.

16) Rhaid rhoi gwybod i APHA (APHA.CymruWales@apha.gov.uk yng Nghymru a CSC.TBmarketreturns@apha.gov.uk yn Lloegr) a'r Awdurdod Lleol am unrhyw anifeiliaid heb eu gwerthu Rhaid bod cynllun wrth gefn ar waith ar gyfer ymdrin ag anifeiliaid heb eu gwerthu. Ni ellir cynnal rhagor o grynoadau nes bod yr anifeiliaid wedi cael eu symud ymaith.

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.